**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**179 - Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 08 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 85 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw’n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 21 Hydref 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 20/10/2020 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Diwygiodd Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed (Diwygio) (Ymadael yr UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") Reoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005 ("Rheoliadau 2005") i gywiro diffygion a oedd yn codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd ym maes diogelwch ac ansawdd gwaed a chydrannau gwaed. Disgwylir i Rheoliadau 2019 ddod i rym ar ddiwrnod cwblhau’r Cyfnod Gweithredu.

Er mwyn gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon, mae'r Rheoliadau pwnc yn diwygio Rheoliadau 2019 i gyfyngu ar y newidiadau a wnaed gan

Reoliadau 2019 i Brydain Fawr yn unig, ac yn gwneud mân ddiwygiadau eraill.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 15 Hydref 2020, am effaith y Rheoliadau hyn:

1. Roedd Rheoliad 13 o Reoliadau 2019 yn mewnosod pŵer newydd i wneud rheoliadau yn Rheoliad 23A(1)(a) o Reoliadau 2005 ar gyfer Gweinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru), fel awdurdod priodol Cymru, i wneud darpariaeth mewn perthynas â safonau a gofynion yn ymwneud â system ansawdd ar gyfer sefydliadau gwaed.

2. Ymddengys bod rheoliad 13(b)(ii) o'r Rheoliadau pwnc yn ymestyn y pŵer hwnnw i gynnwys hefyd y gallu i wneud darpariaeth o'r fath mewn perthynas â banciau gwaed ysbytai.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.